# ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU

**23 Mehefin 2023**

| | |
|---|---|
| TEITL: | Adroddiad ynghylch Bargen Twf Canolbarth Cymru |
| AWDUR: | Cathy Martin, Rheolwr Gweithrediadau – Bargen Twf Canolbarth Cymru |

## 1 Diben yr adroddiad

1.1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r canlynol:

- trosolwg byr o'r cynnydd a'r camau nesaf yn ymwneud â Bargen Twf Canolbarth Cymru
- y Templed Arfarnu Achos Busnes Amlinellol

## 2 Penderfyniad(au) a geisir

2.1 Nodi'r cynnydd hyd yma
2.2 Nodi'r broses arfarnu achos busnes amlinellol

## 3 Cefndir ac ystyriaethau perthnasol

3.1 Ers i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru gymeradwyo Achos Busnes Strategol wedi'i ddiweddaru y Portffolio (fersiwn 2.1) a'r dogfennau ategol ar 28 Mawrth 2023, mae'r dogfennau wedi'u cyflwyno yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'w hadolygu yn rhan o'r broses o ystyried rhoi Llythyr Dyfarnu Grant ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

3.2 Mae'r adborth a gafwyd hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn, gan gynnwys yn dilyn cyflwyniad a roddwyd i Fwrdd Gweithredu Bargeinion Twf a Bargeinion Dinesig Cymru ar 29 Mawrth gan Uwch-berchnogion Cyfrifol y Portffolio a'r Swyddogion Arweiniol Strategol. Mae'r Adolygiad Sicrwydd ym mis Chwefror, a roddodd y Fargen Twf yn y categori Oren/Gwyrdd, wedi helpu i gyfrannu i'r sefyllfa gadarnhaol hon ac yn dangos bod y rhanbarth yn barod i gael y cyllid ac i symud ymlaen i gyflawni'r Fargen Twf.

3.3 Mae'r ystyriaeth o ddyfarnu'r cyllid i Ganolbarth Cymru bellach yn dilyn proses a osodwyd rhwng y ddwy lywodraeth a disgwyliwn glywed y canlyniad yn yr wythnosau nesaf.

## 4 Cyflawni

4.1 Ers dechrau 2023, mae llawer o'r gwaith wedi bod yn canolbwyntio ar ddiweddaru Achos Busnes Strategol y Portffolio a'r dogfennau ategol. Mae'r ffocws bellach wedi symud i symud ymlaen gyda datblygiad achos busnes Rhaglenni a Phrosiectau i symud yn nes at gyflawni.

4.2 Mae'r Noddwyr Prosiectau ar gyfer y prosiectau sydd wedi cyrraedd y rhestr fer

ar hyn o bryd yn parhau â'r gwaith o ddatblygu achosion busnes ac rydym yn disgwyl i ragor o Achosion Amlinellol Strategol gael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Medi, ynghyd â'r cyntaf o'r Achosion Busnes Amlinellol. Yn wreiddiol, roeddem yn disgwyl i rai Achosion Busnes Amlinellol gael eu cyflwyno ym mis Chwefror/Mawrth, ond mae angen gwneud mwy o waith i'w datblygu.

4.3 Wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r Achosion Busnes Amlinellol, mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi datblygu'r broses arfarnu ymhellach i ystyried y meini prawf asesu ar gyfer y cam nesaf hwn - gweler atodiad 1. Mae hwn wedi'i ddosbarthu i'r Grŵp Cynghori Economaidd i gael mewnbwn.

4.4 Fel gyda'r arfarniadau SOC, bydd y tîm adolygu yn cyflwyno'r canfyddiadau i'r Grŵp Rheoli i'w hadolygu a bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno wedyn i gyfarfod nesaf Bwrdd TCC sydd ar gael.

4.5 Mae'r ddwy Raglen yn dod yn eu blaen yn dda. Mae'r Rhaglen Ddigidol yn cyflwyno prosiectau erbyn hyn, ac mae'r Rhaglen Safleoedd ac Eiddo ar fin cwblhau'r gwaith o asesu safleoedd.

4.6 Mae cynlluniau'n cael eu creu ar gyfer adolygiadau sicrwydd yng nghyswllt y ddwy Raglen ac yng nghyswllt Prosiectau os ydynt wedi cyrraedd cam yr Achos Busnes Amlinellol. Bydd hynny'n cynyddu hyder o ran cyflawni, ac o ran gwybod bod y prosesau cywir wedi'u dilyn ac ar waith ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

4.7 Mae Trosolwg Portffolio yn dangos y cerrig milltir allweddol a'r camau nesaf i'w gweld yn Atodiad 2.

## 5 Llywodraethu

5.1 Mae adolygiad wedi'i gynnal o drefniadau'r 'Grŵp Rheoli' (sef un o argymhellion Adolygiad Sicrwydd y Portffolio). Mae Rhan 1 wedi troi'n Fwrdd Cyflawni Portffolio'r Fargen Twf, ac mae ganddo Gylch Gorchwyl diwygiedig ac aelodaeth fwy cyfyngedig er mwyn sicrhau trafodaethau mwy penodol.

## 6 Adnoddau

6.1 Mae adnoddau staffio'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'u hadolygu, yn rhannol oherwydd newidiadau i gyllid ond hefyd oherwydd bod hynny'n un o'r argymhellion yn Adolygiad Sicrwydd y Portffolio, er mwyn sicrhau bod y swyddi cywir ar waith neu bod y bobl gywir yn cael eu recriwtio i symud y Fargen Twf ymlaen i'r cam nesaf.

6.2 Cynigir bod 4 o'r swyddi 'craidd' presennol yn parhau (y Rheolwr Gweithrediadau, Rheolwyr Rhaglenni x 2, y Swyddog Dadansoddi a Chefnogi Portffolio) a bod swydd Rheolwr Prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn gorffen ar 31 Gorffennaf 2023 pan fydd cyllid y Gronfa honno'n dod i ben.

6.3 Bydd angen ymestyn contractau ar gyfer y swyddi 'craidd' sy'n weddill, ond ni ellir gwneud hynny nes y ceir sicrwydd ynghylch cyllid y Fargen Twf. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â swyddogion Adnoddau Dynol.

6.4 Cynigir bod swydd Swyddog Cyfathrebu Tyfu Canolbarth Cymru yn parhau dan drefniant secondio, gyda'r cyllid yn cael ei rannu rhwng amryw swyddogaethau

rhanbarthol Tyfu Canolbarth Cymru. Bydd y swydd yn parhau i gael ei chynnal gan Ceredigion, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, a bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda swyddfeydd y wasg yn y ddau awdurdod lleol.

6.5 Mae swyddi eraill yn cael eu cynnig hefyd, sef swydd weinyddu a swydd Rheolwr Prosiectau a Pherfformiad. Mae'r ddwy swydd i'w cadarnhau.

6.6 Diwedd mis Mai yw dyddiad cau'r tendr am gymorth technegol i'r Portffolio. Yna, bydd yr ymatebion yn cael eu hadolygu a bydd y prosesau dyfarnu contract yn cael eu dilyn.

## 7 Cyllid

### Proffil Cyfalaf

7.1 Yn dilyn trafodaethau â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, mae ymarfer ailbroffilio wedi'i gynnal yng nghyswllt y cyllid sydd i'w ryddhau i'r rhanbarth ar gyfer y flwyddyn gyntaf, sy'n cyd-fynd yn well â'r gwariant a ragwelir yn hytrach na bod ei broffil yn wastad. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â'r Swyddog Adran 151 ynghylch sut mae symud ymlaen.

7.2 Mae cynigion wedi'u cyflwyno i'r ddwy Lywodraeth ac rydym yn aros am ymateb.

### Cyllideb TCC

7.3 Mae ymarfer caffael wedi'i gynnal i ddarparu cymorth technegol i'r Cynllun Twf, yn enwedig i gefnogi gwaith Achos Busnes Portffolio a gwerthusiadau Achos Busnes Rhaglen/Prosiect.

7.4 Mae cyflenwr a ffefrir wedi'i adnabod, gyda'r bwriad o gyhoeddi contractau dros yr wythnos neu ddwy nesaf. Bydd y contract yn cynnwys cymorth am 5 mlynedd i alluogi cyson o tua £80k y flwyddyn. Nodwyd hyn fel cost o fewn y gyllideb a osodwyd ar gyfer 2023/24 gyda'r bwriad o'i gynnwys yn y blynyddoedd i ddod.

## 8 Buddsoddi gan y Sector Preifat

8.1 Mae sicrhau'r Buddsoddi gan y Sector Preifat, sy'n ofynnol i gyflawni'r Fargen Twf, yn dal yn risg uchel ar draws y Portffolio ac mae'n rhywbeth y mae'r ddwy Lywodraeth yn pryderu amdano.

8.2 Cynigir bod y Grŵp Cynghori Economaidd yn perchenogi'r Strategaeth ar gyfer Buddsoddi gan y Sector Preifat. Mae'r gwaith o egluro ei rôl o ran cyflawni wedi bod yn mynd yn ei flaen yn dda ac mae nifer o drafodaethau wedi'u cynnal hyd yma. Dyma'r egwyddorion allweddol:

- Cyfathrebu: cryfhau ymwybyddiaeth o Fargen Twf Canolbarth Cymru ac o gyfleoedd (yn uniongyrchol drwy'r prosiectau, ac yn anuniongyrchol hefyd drwy gyfleoedd o ran cadwynau cyflenwi).
- Gwybodaeth arbenigol: defnyddio'r Grŵp Cynghori Economaidd a rhanddeiliaid ehangach i wella dulliau gweithredu.
- Meithrin partneriaethau: datblygu cysylltiadau a gwella ymwybyddiaeth o'r Fargen Twf, yr hyn y mae'n ei wneud a'r hyn y gall ei gynnig.
- Anghenion busnes: gweithio'n agos gyda darparwr newydd Busnes Cymru

i alinio anghenion/gofynion o ran cymorth.

## 9 Risg

9.1 Mae'r Gofrestr Risg a Materion wedi'i diweddaru ac mae risgiau eraill wedi'u hychwanegu er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ac argymhellion Adolygiad Sicrwydd y Portffolio. Dyma'r prif risgiau presennol:

- Adnoddau'r Swyddfa Rheoli Portffolio: roedd Adolygiad Sicrwydd y Portffolio yn argymell cynyddu capasiti'r Swyddfa; mae angen cyllid i sicrhau swyddi.
- Costau adeiladu'n codi / problemau'n ymwneud â chadwynau cyflenwi / costau oherwydd chwyddiant: maent yn parhau'n broblem, yn enwedig i Noddwyr Prosiectau.
- Adnoddau ariannol i gyflawni'r Fargen Twf: defnyddio rhan o gyllid y Fargen Twf at ddiben arbennig, cyfraniadau yn y dyfodol gan awdurdodau lleol.
- Buddsoddi gan y sector preifat: mae'n dal yn ystyriaeth allweddol i Lywodraethau, a rhoddir pwys ar weld strategaeth ar waith.

## 10 Cyfathrebu ac Ymgysylltu

10.1 Mae llythyrau newyddion misol yn cael eu llunio o hyd ac maent yn boblogaidd iawn (cafwyd canmoliaeth iddynt gan gydweithwyr mewn Llywodraeth ymhlith pobl eraill).

10.2 Mae cynllun gweithgarwch blaengar ar waith i fapio cyfleoedd a sicrhau bod cyfathrebu rhagweithiol yn digwydd. Mae'r cynllun yn cynnwys:

- Datganiad i'r wasg, ar gyfer mis Mehefin, ynghylch y ffaith bod Llythyr Dyfarnu Grant y Fargen Twf wedi'i roi, gyda fideo sy'n cynnwys y ddau Arweinydd.
- Gweinidogion yn bwriadu ymweld â'r rhanbarth i gwrdd â'r Arweinwyr rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, ar ôl i'r Llythyr Dyfarnu Grant gael ei roi, felly bydd angen cynllunio hynny.

## 11 Y camau nesaf

11.1 Isod ceir trosolwg o'r camau nesaf:

| | |
|---|---|
| **Mai/Mehefin** | Cynllunio Adolygiadau Sicrwydd Gateway yng nghyswllt Rhaglenni a Phrosiectau. |
| **Mai/Mehefin** | Ystyried cynigion y Rhaglen Ddigidol ymhellach. |
| **Mai ymlaen** | Achosion Busnes Prosiectau i'w cyflwyno a'u hasesu (6 wedi symud ymlaen i fod yn Achosion Busnes Amlinellol, 3 yn Achosion Amlinellol Strategol). |
| **Mehefin** | Asesu ymatebion i'r tendr am gymorth technegol i'r Portffolio a dyfarnu contract. |
| **Mehefin** | Llythyr Dyfarnu Grant yn cael ei roi. Datganiadau i'r wasg/gwaith cyfathrebu.<br>Dyddiad rhyddhau'r cyllid i'w gadarnhau. |
| **Mehefin** | Achos Busnes wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Rhaglen Ddigidol, copi drafft o Achos Busnes ar gyfer y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo yn cael ei gyflwyno. |
| **Mehefin** | Ymestyn contractau staff y Swyddfa Rheoli Portffolio. |

| | |
|---|---|
| **Gorffennaf** | Cynllunio a pharatoi ar gyfer ymweliad Gweinidog â'r rhanbarth. |
| **8 Medi** | Grŵp Rheoli – yn cael asesiadau am Achosion Amlinellol Strategol a'r set gyntaf o Achosion Busnes Amlinellol. |
| **29 Medi** | Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru – yn cael argymhellion ynghylch Achosion Busnes i'w hystyried. |

## 12 Goblygiadau cyfreithiol

12.1 Dim

## 13 Goblygiadau o ran adnoddau dynol

13.1 Gweler eitem 6.

## 14 Goblygiadau ariannol

14.1 Gweler eitem 7.

## 15 Atodiadau

- Atodiad 1: Fframwaith Arfarnu ABA
- Atodiad 2: Trosolwg Portffolio